**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Cyngor y Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L S Gibbard (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | M B Lewis |
| P B Smith | L J Tyler-Lloyd | L V Walton |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Sally-Ann Evans | Uwch-gyfreithiwr |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw

---

**5 Datganiadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**6 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2019 a 9 Mai 2019 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**7 Cylch Gorchwyl.**

Darparwyd y Cylch Gorchwyl er gwybodaeth.

**8 Cynllun Gwaith 2019-2020.**

Amlygodd y Cadeirydd bynciau posib i'r pwyllgor eu trafod a gofynnodd am awgrymiadau gan y pwyllgor am eitemau posib ar gyfer y cynllun gwaith ar gyfer Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol 2019-2020.

Trafododd y pwyllgor yr awgrymiadau canlynol a gynigiwyd gan y Cadeirydd:-

**Ymgynghoriad a Chydgynhyrchu -** awgrymwyd yr eitem hon i ddilyn gwaith cydgynhyrchu'r flwyddyn flaenorol ac i gynyddu'r cwmpas i archwilio gweithgarwch ymgynghori a chyfathrebu'r cyngor. Gallai'r gwaith hwn gynnwys archwilio sut gall y cyngor ddefnyddio technoleg ddigidol yn well a gwella mynediad at wasanaethau i'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ac/neu sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol. Byddai'r gwaith hwn yn cysylltu â'r Strategaeth Cynhwysiad Digidol, y Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys a'r Strategaeth Cydgynhyrchu. Byddai'r Prif Swyddog Digidol a Thrawsnewid yn gweithio gyda'r Swyddog Strategaeth a Pholisi ar amserlenni posib er mwyn cyflwyno'r strategaethau uchod i'r pwyllgor.

**Amrywiaeth yn y gweithlu** - roedd yr eitem hon i ddilyn gwaith ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r flwyddyn flaenorol i ehangu'r cwmpas eleni er mwyn archwilio sut gall y cyngor wella ar gasglu data mewn perthynas ag amrywiaeth. Dywedodd y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y byddai angen i'r cyngor gasglu data ar unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill yn y dyfodol megis anabledd a hil.

**Dinas Hawliau Dynol** - cynigiwyd hyn fel eitem newydd i gynnal brîff gwylio ar gynnydd o ran bod yn Ddinas Hawliau Dynol. Yn dilyn trafodaethau, teimlwyd i raddau helaeth y byddai'n well i bwyllgor neu faes arall ymdrin â'r eitem hon.

**Polisi Datblygu Cynaliadwy** - cynigiwyd hyn fel eitem newydd i ailddatblygu Polisi Cynaladwyedd y cyngor er mwyn cydymffurfio â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cafwyd awgrym arall i ystyried Sosialaeth Ddinesig fel eitem gan edrych ar Fodel Preston ac a allai fod yn berthnasol neu a ellid ei addasu.

**Torrodd y cyfarfod am 2.30pm**

Torrwyd cyfarfod y pwyllgor oherwydd larwm tân

**Ailalwyd y cyfarfod am 2.50pm**

Gofynnodd y pwyllgor i wybodaeth ysgrifenedig gael ei darparu cyn y cyfarfod pwyllgor i alluogi aelodau i ystyried yr eitemau cyn y cyfarfod.

Trafododd y Prif Swyddog Digidol a Thrawsnewid amseru'r cyfarfodydd a'r posibilrwydd o gynnal gweithdai.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-2020 yn cynnwys y canlynol:

1) Ymgynghori a Chydgynhyrchu;
2) Amrywiaeth yn y Gweithlu; a
3) Pholisi Datblygu Cynaliadwy.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**